Cofnodion Wedi eu Cadarnhau

Teitl y Cyfarfod:	**Cyfarfod Bwrdd (Busnes)** **Ystafell Medrus, Prifysgol Aberystwyth**
Dyddiad y Cyfarfod:	27 Mawrth 2015
Aelodau'r Bwrdd:	Ruth Hall Madeleine Havard Harry Legge-Bourke Peter Matthews (Cadeirydd) Andy Middleton Nigel Reader Paul Williams
Tîm Gweithredol yn bresennol:	Clive Thomas, Cyfarwyddwr Llywodraethu Niall Reynolds, Cyfarwyddwr Pontio Catherine Smith, Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu Trefor Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cenedlaethol Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl Graham Hillier, Cyfarwyddwr Gweithredol y De Martin Britton, Prif Swyddog Gwybodaeth Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gogledd a'r Canolbarth Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio
Ysgrifenyddiaeth:	Kelly Goswell Geri Mills

Croeso

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau

2. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Emyr Roberts (Prif Weithredwr) a Lynda Warren.

Datgan Budd

3. Ni chafodd unrhyw ddatganiad budd ei nodi.

Cadarnhau'r Cofnodion

4. Cafodd gofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 10 Chwefror eu cytuno fel cofnod cywir a'u cymeradwyo gan y Bwrdd gyda mân ddiwygiadau.

Adolygu'r Log Gweithredu

5. Cafodd y Log Gweithredu ei adolygu gyda'r adborth canlynol:

Gweithredu 1 – *NRW i ddarparu nodyn briffio i'r Grŵp ar y diweddaraf o'r Panel Ymgynghori Strategaeth Coetir* – mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio a Ruth Jenkins, Pennaeth Cynllunio Adnoddau Naturiol, bellach wedi eu cadarnhau fel cynrychiolwyr yn y cyfarfod cyntaf ar 14 Ebrill.

Pwynt Gweithredu:* Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i *gylchredeg y cylch gorchwyl a'r rhestr aelodau.

Gweithredu 2 - *Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cenedlaethol i roi nodyn briffio i'r Bwrdd ar ffigurau plannu newydd, ailblannu a chwympo ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru.* - Bydd drafft yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod Grŵp Menter y Bwrdd (Cynyddu Gwerth Coed) ar 22 Ebrill. Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chylchredeg i'r Bwrdd wedyn.

Gweithredu 3 – *Y Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu i sicrhau bod y Cynllun Adloniant Awyr Agored a Galluogi Mynediad yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.* - Wedi'i wneud.

Gweithredu 4 - *John Hogg i roi esboniad ar yr ymholiad data.* - Wedi'i wneud.

Gweithredu 5 - *John Hogg i gynnwys unrhyw sylwadau perthnasol wrth ddatblygu'r Dangosfwrdd Corfforaethol 2015/16* – Wedi'i wneud.

Gweithredu 6 – *Adborth i'w anfon at y Cyfarwyddwr Llywodraethu* – Wedi'i wneud.

Gweithredu 7 – *Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i gylchredeg y cynlluniau gweithredu, ac i roi diweddariad i'r Bwrdd ar statws cadwraeth pysgod mudol, er gwybodaeth.* Y cynllun lliniaru cyntaf wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod, chwe chynllun arall i'w cwblhau.

6. Bu'r Bwrdd yn trafod y Cynllun Lliniaru a chytunwyd bod y gweithredu arfaethedig yn ffordd bositif ymlaen, gan ymrwymo i barhau i ddatblygu'r dystiolaeth.

Diweddariad ar Les, Iechyd a Diogelwch

7. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl i roi diweddariad i'r Bwrdd ar Les, Iechyd a Diogelwch, gan gyfeirio at y papur a gyflwynwyd.

8. Cytunodd Hywel Davies, Hyrwyddwr Lles, Iechyd a Diogelwch y Bwrdd, fod y ffigurau yn y ddogfen a gyflwynwyd yn gywir.

Diweddariad Cyllid - 2014/15 NRW B B 16.15

9. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol ddiweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol bresennol, gan atgoffa'r Bwrdd o'r sefyllfa ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn.

10. Bu'r Bwrdd yn trafod y papur gan nodi'r canlynol:

- Croesawyd y rhagolygon ariannol diwedd blwyddyn a diolchwyd i'r tîm am eu gwaith.
- Mae'r broses o bontio o'r tair system flaenorol i system newydd MyNRW wedi cael ei thrin yn dda gydag arwyddion cynnar o'r adroddiadau ariannol fydd yn bosibl gyda'r system newydd.
- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn goruchwylio'r gwaith o baratoi'r cyfrifon diwedd blwyddyn, gan gynnwys archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru.
- Er nad oes llawer o arian wrth gefn yn y gyllideb, mae'r gwahanol elfennau cyllideb yn cynnig peth hyblygrwydd pe bai angen ail-flaenoriaethu.

Dangosfwrdd Corfforaethol Drafft - 2015/16 NRW B B 17.15

11. Croesawodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu John Hogg i'r cyfarfod a chafwyd cyflwyniad ganddo ar y Fframwaith Perfformiad drafft ar gyfer 2015/16, gan dynnu sylw at fewnbwn is-grŵp y Bwrdd.

Nododd y Bwrdd y cynnig gyda'r adborth canlynol:

- Roedd Is-Grŵp y Bwrdd yn croesawu'r cyfle i gyfrannu mewnbwn cynnar gan gytuno fod y rhan fwyaf o'r awgrymiadau / sylwadau wedi cael eu derbyn.
- Bydd angen i'r Tîm Gweithredol ddiwygio mwy ar rai targedau i sicrhau eu bod yn glir a heriol.
- Trafodwyd y targedau a'r mesurau gofal cwsmer, ac awgrymwyd y gellid defnyddio trin cwynion, gan gynnwys dysgu gwersi, fel mesur procsi defnyddiol ar gyfer gofal cwsmer.
- Nodwyd y targedau a'r mesurau Trawsnewid ond awgrymwyd y dylid, yn benodol, cynnwys y llwyddiant gyda chyflwyno'r Map Ffordd.

12. Cytunodd y Bwrdd ar y papur ac y dylai'r Tîm Gweithredol fanwl-ddiwygio'r Dangosfwrdd yn derfynol i adlewyrchu sylwadau'r Bwrdd.

Cynllun Galluogi Cymunedau ac Adfywio NRW 18.15

13. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio'r papur gan ofyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Galluogi Cymunedau ac Adfywio am 2015-2020, y Cynllun Gweithredu cysylltiedig ynghyd â Chynllun Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) dangosol.

14. Bu'r Bwrdd yn trafod y papur gan nodi'r canlynol:

- Mae Grŵp Cymunedau'r Bwrdd wedi cyfrannu mewnbwn a chyngor ar ddatblygiad y Cynllun.
- Awgrymwyd adran ar y cyd-destun sefydliadol, ynghyd â chanlyniadau mesuradwy ac amserlen.
- Mae'r offeryn GIS y cyfeirir ato yn y papur yn cynnig adnodd data amhrisiadwy i gymunedau i helpu i gael gafael ar wybodaeth seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae'r cynigion yn y Cynllun i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid yn glir, fodd bynnag awgrymwyd bod angen cyfeirio'n benodol at 'wyddor dinasyddion'.
- Er mwyn ymgysylltu ar draws y sbectrwm cyfan o gyfleoedd, bydd cysondeb iaith yn bwysig a dylai'r holl gynlluniau RBA ddefnyddio'r un derminoleg.
- Cytunwyd y dylid rhoi sylw mwy penodol i Reoli Adnoddau Naturiol yn y cynllun.
- Gallai gwaith eisoes fod yn cael ei wneud gan fudiadau eraill fel Menter Môn – mae felly'n bwysig deall y cyd-destun lleol a chydnabod bod llawer o'r gwaith eisoes yn cael ei wneud gan eraill.

15. Cytunodd y Bwrdd ar y Cynllun arfaethedig a diolchwyd i'r Tîm am y drafft.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gwreiddio Lliniaru ac Addasu i'r Newid Hinsawdd – Adroddiad Cynnydd NRW B B 19.15

16. Croesawyd Clive Walmsley i'r cyfarfod a derbyniwyd cyflwyniad ganddo ar y papur gan ofyn i'r Bwrdd gymeradwyo mabwysiadu'r dull risg a chyfle o weithredu canllawiau Llywodraeth Cymru ar addasu, er mwyn helpu i symud ymlaen i brif ffrydio gweithredu ar newid hinsawdd ar draws holl weithgareddau NRW.

17. Croesawodd Andy Middleton, fel Hyrwyddwr Newid Hinsawdd y Bwrdd, y papur hwn.

18. Bu'r Bwrdd yn trafod y papur gan nodi'r canlynol:

- Cadarnhaodd y Bwrdd fod hwn yn fater lle dylai NRW geisio bod yn gorff enghreifftiol, er gwaetha'r sialensau y bydd hyn yn ei gyflwyno.
- Mae'r cyd-destun byd-eang yn bwysig yn achos newid hinsawdd, felly mae angen sicrhau cysylltiadau da ag Adroddiad y Comisiwn Brenhinol a Llywodraeth Cymru.
- Nodwyd y cysylltiadau rhwng newid hinsawdd a'r agendâu lles, iechyd a diogelwch, yn enwedig o ran llai o deithio, a fyddai o fantais i'r ddwy agenda.

19. Croesawodd y Bwrdd y diweddariad gan ofyn am eitemau rheolaidd ar y pwnc hwn ar yr agenda yn y dyfodol.

Llywodraethu a'r Strategaeth Lles, Iechyd a Diogelwch NRW B B 20.15

20. Croesawodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl Andrew Johnson i'r cyfarfod a chafwyd cyflwyniad ganddo'n amlinellu'r cynigion ar gyfer strategaeth, y fframwaith llywodraethu a dogfennau polisi.

21. Bu'r Bwrdd yn trafod y cyflwyniad gan nodi'r adborth canlynol:

- Dywedodd Hywel Davies, fel Hyrwyddwr Lles, Iechyd a Diogelwch y Bwrdd, os ydym am fod yn gorff enghreifftiol, bod angen i les a diogelwch ein staff fod yn flaenllaw yn ein meddwl a'n hymrwymiadau.
- Nodwyd fod y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth wedi cyfrannu mewnbwn i'r cynigion yn ei gyfarfod diwethaf.
- Mae gan NRW gyfrifoldeb tra phwysig, a rhwymedigaeth gyfreithiol, i sicrhau lles ei staff yn y gwaith a bu'r Bwrdd yn trafod a oedd ganddynt gyfrifoldeb ehangach i gymunedau ar wahân i ddarparu gwasanaethau uniongyrchol NRW. Cytunwyd bod angen rhywfaint o ailddrafftio i adlewyrchu'r ddealltwriaeth gytûn.
- Awgrymwyd hefyd bod angen ychydig o fanwl-ddiwygio ar yr amcanion yn atodiad 1, yn ogystal ag ymgorffori negeseuon o'r Map Ffordd.
- Mae angen canlyniadau mesuradwy er mwyn cael gweledigaeth ar gyfer targedau ac uchelgais.

- Dylid dysgu gwersi o'r arolwg staff diweddar a'u hymgorffori.

22. Cytunodd y Bwrdd ar y cynigion ar gyfer strategaeth, y fframwaith llywodraethu a pholisi'n amodol ar y diwygiadau a gytunwyd.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol NRW B B 21.15

23. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl y papur hwn i'r Bwrdd a gofynnodd am gytundeb ar gyhoeddi'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2014/15 a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19.

24. Nodwyd fod Madeleine Havard fel Hyrwyddwr y Bwrdd, a'r Prif Swyddog Gwybodaeth fel Cadeirydd y grŵp staff LGBT, wedi cyfrannu mewnbwn i'r papur.

25. Bu'r Bwrdd yn trafod y papur gan roi'r adborth canlynol:

- Roedd yr adroddiad blynyddol yn rhoi'r sefyllfa sylfaenol ond, yn achos rhai meysydd roedd angen gwaith pellach i ddeall y sefyllfa bresennol a phan fydd MyNRW yn llawn weithredol bydd yn cefnogi'r datblygiad hwn.
- Bu'r Bwrdd yn trafod a ddylid cyfeirio'n fwy penodol at amrywiaeth, fel rhywbeth ar wahân i gydraddoldeb, ac eglurwyd mai'r ddeddfwriaeth oedd y man cychwyn.
- Cytunodd y Bwrdd y bydd amrywiaeth, fel nod ynddo'i hun, yn helpu i sicrhau bod NRW yn darparu gwasanaethau sy'n cwrdd ag ystod o anghenion cymunedau yng Nghymru.

26. Cytunodd y Bwrdd ar y papur a diolchwyd i'r tîm.

Safonau Iaith Gymraeg NRW B B 22.15

27. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl y papur hwn i oleuo'r Bwrdd ar y Safonau Iaith Gymraeg sydd i'w cyflwyno cyn bo hir a'r gwaith sydd ar y gweill i sicrhau cydymffurfio pan ddaw'r Safonau i rym.

28. Bu'r Bwrdd yn trafod y papur gan roi'r adborth canlynol:

- Mae'n bwysig cynyddu dealltwriaeth bod yr Iaith Gymraeg yn adnodd naturiol ac yn elfen bwysig o'n sefydliad.
- Croesawodd y Bwrdd y cynnydd gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg presennol a chawsant eu sicrhau y bydd y safonau sy'n debygol o gael eu cyflwyno'n gwreiddio'r cynnydd hwn ymhellach.

Diweddariad gan y Cadeirydd (llafar)

29. Derbyniwyd diweddariad gan y Cadeirydd ar gyfarfodydd a fynychodd ac adroddwyd ar weithgareddau o dan y pedwar piler o Reoli Adnoddau Naturiol, a hefyd ar y cyfarfod â'r Gweinidog a chyflawni arfarniadau gydag Aelodau'r Bwrdd:

Amgylchedd

- Cyngor ac Adolygiad o'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur

Economi

- Gweinidog BEST
- Dŵr Prydain

Gwybodaeth

- Gweminar ar gyfer Prifysgol Anglia Ruskin

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu (llafar)

30. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cyfathrebu diweddar o fewn NRW gan gynnwys:

- Gwreiddio Map Ffordd NRW ymhellach, gan gynnwys y cam nesaf ar gyfer ymgysylltu â staff.
- Lansiwyd MyIdea gydag ymateb da gan staff hyd yma o ran syniadau a gyflwynwyd.
- Mae'r Cod Ymddygiad wedi'i ddrafftio'n derfynol a bydd yn cael ei lansio'n fuan
- Bydd yr ymgyrch Llwyddo gyda Llai (Success for Less) i gefnogi'r rhaglen effeithlonrwydd gyffredinol yn cychwyn yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd.
- Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud ar gynllun cydnabod staff i helpu i wobrwyo cyfraniad y staff.

Adroddiadau Pwyllgorau

Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth

31. Cyfarfu'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Thrawsnewid ar 20 Mawrth gan drafod polisi drafft ar gyfer achosion ymadael gwirfoddol unigol, arfarnu swyddi, yr Arolwg Pobl a'r cynigion a drafodwyd gan y Bwrdd ar Les, Iechyd a Diogelwch. Cyflwynir y cofnodion i gyfarfod nesaf y Bwrdd am gadarnhad ffurfiol.

Pwyllgor ARAC

32. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 20 Mawrth a chroesawyd Madeleine Havard fel aelod newydd.

33. Trafodwyd agenda gyda 25 o eitemau, gyda phynciau'n amrywio o ddiweddariad ar y Byrddau IDB i seiber-fygythiadau a chofrestri risg gweithredol. Cyflwynir cofnodion y cyfarfod i gyfarfod nesaf y Bwrdd am gadarnhad ffurfiol.

Pwyllgor FRMW

34. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd FRMW ers y Bwrdd diwethaf, ond mae cyfarfod is-grŵp i'w gynnal ym mis Ebrill i drafod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddraenio Trefol Cynaliadwy a'r adborth o gyfarfod Gweinidogol diweddar.

35. Fel yr adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, mae adolygiad Llywodraeth Cymru o FRMW wedi dechrau.

36. Fel yr atgoffwyd y Bwrdd yn ddiweddar, o'r 1 Ebrill ymlaen NRW fydd yn gyfrifol am y tri Bwrdd Draenio Mewnol yng Nghymru a bydd 20 o staff IDB yn ymuno â'r sefydliad ar y dyddiad hwnnw.

37. Yn ddiweddar mae staff wedi cyfrannu at ymarfer pwysig ar y cyd i brofi'r ymateb strategol i ymchwydd arfordirol yn ne Cymru. Barnwyd bod yr ymarfer Megacyma yn ddefnyddiol a llwyddiannus, er y cynhyrchir adroddiad yn fuan ar ba wersi a ddysgwyd.

Pwyllgor Safleoedd Gwarchodedig

38. Cyfarfu'r Pwyllgor Safleoedd Gwarchodedig i drafod y papur safleoedd dynodedig a gyflwynwyd i Gyfarfod y Bwrdd Datblygu ac sydd wrthi'n cynllunio amserlen o gyfarfodydd ar gyfer y dyfodol.

Diweddariadau gan Grwpiau'r Bwrdd (ysgrifenedig)

39. Mae Grwpiau'r Bwrdd wrthi'n cynllunio amserlen o gyfarfodydd ar gyfer y dyfodol ar sail materion sydd angen mewnbwn cyn eu hystyried yn llawn gan y Bwrdd.

Edrych Ymlaen

40. Cytunodd y Bwrdd na fyddid yn defnyddio Dyddiad Trefniadau Wrth Gefn y Bwrdd ar 10 Mehefin ac y byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd yn Abertawe ar 6-7 Mai.

Unrhyw Fusnes Arall

41. Diolchodd y Cadeirydd i Graham Hillier, Cyfarwyddwr Gweithredol y De, fydd yn gadael NRW cyn bo hir, gan ddymuno'r gorau iddo.

42. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.